Adar Ysglafaethus

Braidd yn nerfus oedd rhai o'r disgyblion wrth groesawu'r adar ysglafaethus. Cawsom lawer o wybodaeth amdanynt ac erbyn diwedd yr ymweliad roedd rhai o'r plant yn ddigon dewr i afael yn rhai o'r adar.

Sion Blewyn Coch

Ar fore oer a rhewllyd cychwynodd nifer fawr ohonom ar ein siwrne i Theatr y Werin i weld y Pantomeim, Sion Blewyn Coch. Cafwyd dwy awr o fwynhad pur a phawb yn falch na chafodd y Blewyn Coch ei ddala.

Recordio Tâp

Bu prysurwch mawr yn yr ysgol yn ddiweddar wrth i'r plant ymarfer ar gyfer recordio tâp o ddoniau lleol. Cyfansoddwyd y ddwy gân ar y tâp gan rai sy'n gysylltiedig â'r pentref sef y Parchg Peter Thomas (gosodiad Mrs Nia Lewis) a Mrs Christine Davies. Mae gwledd o dalent lleol ar y tâp sy'n cynnwys disgyblion presennol a chyn-ddisgyblion.

Bydd y tâp ar werth cyn y Nadolig (Pris £3) gyda'r elw yn mynd tuag at Ysbyty Great Ormond Street a Ward Angharad yn Ysbyty Bron-glais.